

Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 4 Mawrth 2021

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democratiaidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 11 MAWRTH 2021** am **10.00 am** yn **VIA VIDEO CONFERENCE**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democratiaidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIADAU (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYNS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021 (copi ynghlwm).

10.05 -10.10 a.m

5 SIPSIWN A THEITHWYR - GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU A GWEITHDREFNAU DRAFFT GWERSYLLOEDD ANSWYDDOGOL
(Tudalennau 15 - 50)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm), yn rhoi diweddariad i'r aelodau am y penderfyniadau a'r datblygiadau diweddar i geisio gwella'r ffordd mae'r Cyngor yn ymateb i wersyolloedd answyddogol gan Sipsiwn a Theithwyr.

10.10 – 11.15 am

EGWYL 11.15 - 11.30 AM

6 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 51 - 74)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwylgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

11.30 – 11.45 am

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Graham Timms (Is-Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Anton Sampson
Peter Scott
Glenn Swingler
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchenog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 4 Pecyn Dogfen Cyhoeddus

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd trwy Fideo Gynhadledd ddydd lau, 21 Ionawr 2021 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Peter Scott, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Aelodau'r Cabinet – Y Cynghorydd Hugh Evans – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonwydd a'r Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd.

Arsylwyr – Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Lloyd Davies, Alan James, Barry Mellor a Melvyn Mile.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrrd (MJ), Prif Beiriannydd - Rheoli Traffig (PL), Rheolwr Cymorth Busnes (PB), Swyddog Cymorth Busnes (Contractau a Pherfformiad) (RT), Swyddog Datblygu Economaidd a Busnes (CC), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwyr Pwyllgor (SJ a SLW).

Rheolwr Datblygu Busnes Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych - Graham Kendall

Roedd y Cadeirydd am ddweud ei fod yn meddwl am y rhai yr effeithiwyd arnynt yn y llifogydd diweddar ac Estyn ei ddymuniadau iddynt. Diolchodd i'r holl wasanaethau brys a phawb a oedd wedi cynnig cymorth i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

Croesawodd hefyd y Cynghorydd Peter Scott i'r cyfarfod yn dilyn ei benodiad diweddar fel aelod o'r Pwyllgor.

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Glenn Swingler.

2 DATGAN CYSYLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020.

Eitem 5 - Rheoli Risg Llifogydd ledled Sir Ddinbych – Hysbyswyd yr Aelodau bod atodiad 5 i'r Rhaglen Waith Craffu yn cynnwys cylch gorchwyl y grŵp tasg a gorffen.

PENDERFYNWYD - *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.*

Oherwydd problemau technegol, cafodd y cyfarfod ei atal am 10.20. a.m.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m.

5 RHAGLEN ADFYWIO'R RHYL A'I DREFN LLYWODRAETHU

Rhoddodd yr Arweinydd y Cyngorydd Hugh Evans wybodaeth gefndirol i'r aelodau y tu ôl i'r rhaglen adfywio yn y Rhyl. Cadarnhawyd bod gan y Rhyl ddwy o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Oherwydd anawsterau technegol collwyd cysylltiad fideo a sain â'r Arweinydd. Aeth Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus ymlaen i arwain aelodau drwy'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Pwysleisiwyd i'r aelodau fod angen adfywio'r Rhyl fel ardal. Pwysleisiwyd bod swyddogion wedi nodi bod pob tref a ward wedi wynebu cyfnod anodd a bod angen cymorth arnynt.

Yn yr adroddiad roedd diweddarriad o'r trefniadau yngylch blaenoriaeth gweledigaeth canol y dref ac roedd y trefniadau llywodraethu wedi'u cynnwys. Roedd Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl wedi'i sefydlu. Cadarnhawyd bod Grŵp Ardal Aelodau (MAG) y Rhyl wedi'u cynghori am yr holl ddatblygiadau a bod yna Grŵp Cyfeirio'r Rhyl a oedd yn cael ei fynychu gan Gynghorwyr y Rhyl, aelodau Cyngor Tref y Rhyl a'r AC a'r AS lleol. Pwysleisiwyd bod llawer o waith wedi'i gwblhau yn y Rhyl. Gan gynnwys gwaith ar y promenâd, yr harbwr a'r gwaith parhaus yng Nghei'r Marina. Cadarnhawyd mai un o'r meysydd blaenoriaeth oedd canolbwytio ar ganol y dref, tra byddai un arall yn canolbwytio ar adfywio ar gyfer pobl a thrigolion y Rhyl. Cafwyd cadarnhad bod Bwrdd Datblygu Cymuned y Rhyl wedi'i sefydlu gyda phartneriaid fel iechyd a'r heddlu.

Rhoddwyd mwy o fanylion i'r Aelodau gan y Swyddog Datblygu Economaidd a Busnes. Roedd y ddogfen weledigaeth a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad wedi deillio o 18 mis o waith ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar ddiwedd 2019. Y gobaith oedd y byddai'n rhoi arweiniad ar y weledigaeth ar gyfer canol y dref a'i adfywio.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau a thrafodwyd gwahanol agweddau ar yr adroddiad gyda'r swyddogion a oedd yn bresennol. Roedd prif feysydd trafod yn canolbwytio ar y canlynol -

- Nodyn Cynghori Technegol (TAN) 15 oedd cyngor Llywodraeth Cymru (LIC) mewn perthynas â datblygiadau o ran llifogydd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o ardaloedd yn y Rhyl wedi'u nodi fel ardaloedd o lifogydd posibl. Roedd angen i ddatblygiadau yn yr ardaloedd llifogydd roi sylw arbennig i sut y byddent yn mynd i'r afael â'r problemau llifogydd ar y safle datblygu. Cadarnhawyd y byddai rhannau o'r Rhyl yn dal i aros ar y mapiau perygl llifogydd. Roedd nifer o gynlluniau yn y Rhyl i fynd i'r afael â phryderon llifogydd wedi dechrau. Roedd y canllawiau TAN 15 yn nodi y dylid hyrwyddo datblygu adfywio gyda phob agwedd ar y datblygiad yn cael ei asesu.
- Dangosodd Atodiad 2 i'r adroddiad fod y gwaith adfywio yn y Rhyl wedi'i rannu'n bum sector gwahanol. Un o'r sectorau a nodwyd oedd mynediad a symudiad. Roedd hyn edrych ar ac yn mynd i'r afael â chludiant a pharcio yn y Rhyl} Clywodd yr Aelodau fod nifer o brosiectau wedi'u cynnwys i asesu pryderon. Pwysleisiwyd bod gwaith wedi dechrau i edrych ar ddatblygiadau ar gyfer cludiant yn y Rhyl gan gynnwys gwaith gyda'r llwybrau teithio llesol, llwybrau beicio a phwyntiau gwefru ceir trydan. Byddai'r gwaith yn agwedd hirdymor o'r prosiect adfywio.
- Pwysleisiwyd nad oedd aelodau wedi'u heithrio o'r byrddau sy'n gweithio ar y prosiect adfywio. Croesawodd swyddogion adborth a mewnbwn gan aelodau a chynghorwyr y Rhyl. Clywodd yr Aelodau fod Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl yn fforwm technegol a oedd yn sicrhau bod prosiectau y cytunwyd arnynt yn gydgysylltiedig ac yn gweithio gyda'i gilydd. Teimlwyd mai bwrdd dan arweiniad swyddogion fyddai'n gweddu orau gydag unrhyw wybodaeth wedyn yn cael ei chyfleu gyda'r byrddau a'r grwpiau eraill. Roedd aelodau Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl wedi pwysleisio awydd i gael eu cynnwys ar y byrddau sy'n gweithio ar y prosiect Adfywio. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus y byddai'n rhoi adborth ar bryderon aelodau Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl ynghylch aelodaeth y bwrdd. Awgrymwyd y dylid mynd ag adroddiad i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl i drafod ymhellach.
- Cadarnhaodd swyddogion fod ymchwil wedi'i wneud ar brosiectau adfywio eraill a gwblhawyd gan awdurdodau lleol eraill. Roedd swyddogion Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl wedi gweithio gydag ymgynghorwyr a fu'n ymwneud â datblygiadau adfywio eraill yn y DU.
- Cadarnhawyd y cydymffurfir â pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor fel rhan o'r strategaeth farchnata.
- Cafwyd cadarnhad bod gan Sir Ddinbych ymrwymiad i gynorthwyo a chefnogi'r digartref. Roedd nifer o brosiectau a gwaith i fynd i'r afael â'r anghenion llety dros dro a llety argywng wedi dechrau. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl cynnwys terfyn amser ar y caniatâd cynllunio ar gyfer yr uned ddigartrefedd newydd arfaethedig yn Nwyrain y Rhyl er mwyn osgoi i'r eiddo rhag dod yn dŷ arall amfediannaeth mewn amser. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus y byddai'n trafod gyda Chadeirydd Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl i gynnwys adroddiad ar ddigartrefedd a sut y gallai'r awdurdod lleol weithio gyda'r Cyngor Tref i geisio eu cynnwys mewn cynlluniau i fynd i'r afael â'r broblem,

ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer aelodau'r Grŵp Ardal Aelodau ei drafod.

- Trafododd yr Aelodau'r angen am barciau cartrefi modur yn y Rhyl a Sir Ddinbych yn gyffredinol. Teimlwyd y byddai angen posibl am safleoedd parcio ar gyfer unigolion sy'n ymweld â'r ardal, yn enwedig ar ôl COVID-19. Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad y byddai'n fuddiol cael trafodaethau gyda swyddogion o adrannau eraill i ymchwilio i ddatblygiadau posibl. Awgrymodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i'r aelodau ei fod yn archwilio'r darpariaethau sydd yna ar hyn o bryd i'w gynnwys mewn adroddiad i'r swyddogaeth graffu yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a'r ymateb manwl i gwestiynau a phryderon yr aelodau. Nodwyd cais yr aelodau i ganmol y gwaith a gwblhawyd hyd yma ar brosiect adfywio'r Rhyl. Yn dilyn y drafodaeth,

PENDERFYNWYD gan y Pwyllgor: yn amodol ar y sylwadau uchod -

- i). **derbyn yr adroddiad ar Raglen Adfywio'r Rhyl a Llywodraethu a nodi ei gynnwys;**
- ii). **bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus yn cysylltu â Chadeirydd Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl i gynnwys adroddiad ar y ddarpariaeth llety i'r digartref yn y Rhyl a sut y gallai'r Cyngor weithio gyda'r Cyngor Tref i fynd i'r afael â'r angen, ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Grŵp Ardal Aelodau;**
- iii). **bod Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad yn trafod gyda swyddogion eraill y ddarpariaeth bosibl yn y dyfodol ar gyfer cyfleusterau parcio cartrefi modur yn y Rhyl a Sir Ddinbych yn gyffredinol, a**
- iv). **cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn y dyfodol o leiaf bob blwyddyn am ddatblygu a chyflawni'r Rhaglen Adfywio.**

6

SYSTEM DARIFFAU MAES PARCIO A CHYNLLUNIAU PARCIO TRIGOLION

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am system tariff presennol y meysydd parcio a'r polisi ar gyfer cynlluniau preswyl. Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad tebyg wedi'i gyflwyno'n flaenorol yn 2015. Darparwyd rhagor o fanylion gan y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffurdd. Esboniwyd bod Sir Ddinbych wedi mabwysiadu system codi tâl unffurf ar draws y Sir.

Roedd datblygu cynllun peilot arfaethedig yn Llangollen yn rhan o drefniadau rheoli traffig a pharcio ehangach ar gyfer y dref, a oedd yn cynnwys trafodaethau ynglynol gwahanol daliadau parcio rhwng meysydd parcio. Codwyd cwestiwn ynglynol a ellid mabwysiadu tâl uwch am parcio mewn meysydd parcio canolog a chodi tâl is am feisydd parcio ar yr ymylon. Cadarnhawyd nad oedd y polisi presennol yn caniatáu'r dull hwn o godi tâl. Cadarnhaodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffurdd fod yn rhaid i'r incwm cyffredinol ar gyfer tref benodol fod mor niwtral o ran cost â phosibl. Nod y cynllun peilot arfaethedig oedd caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer taliadau amrywiol mewn tref i gynorthwyo llif traffig ac

argaeledd mannau. Pwysleisiodd swyddogion fod y cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau a chytundeb i fwrw ymlaen â'r cynllun peilot. Cafwyd cadarnhad y byddai adroddiad diweddar ac unrhyw ganfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ar ôl monitro am gyfnod o 12 mis.

Cyflwynodd y Cyngorydd Graham Timms hanes byr i'r aelodau o'r problemau a gafwyd yn Llangollen yn ymwneud â pharcio ceir. Rhoddyd gwybod i'r Aelodau mai meysydd parcio Llangollen a greodd yr ail incwm mwyaf o feysydd parcio yn y Sir. Teimlwyd trwy amrywio'r gost o barcio yn y dref, byddai'r ddarpariaeth ar gael a fyddai'n diwallu ar gyfer anghenion pawb, e.e. trigolion, cymudwyr a busnesau lleol. Tynnodd y Cyngorydd Melvyn Mile sylw'r aelodau at y gwaith a oedd wedi dechrau yn Llangollen i amlygu materion a oedd yn bwysig i bob unigolyn ac ymwelydd.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau a thrafodwyd gwahanol agweddau o'r cynllun peilot gyda'r swyddogion a'r Aelod Arweiniol. Roedd prif feysydd trafod yn canolbwytio ar y canlynol -

- Roedd y system trwyddedau parcio presennol ar gyfer parcio ym meysydd parcio'r Cyngor yn dal i fodoli i unigolion eu prynu. Byddai swyddogion yn penderfynu pa faes parcio oedd fwyaf addas i ddeiliaid trwyddedau ei ddefnyddio.
- Rhoddyd sicrwydd bod yr incwm a gynhyrchwyd o feysydd parcio wedi'i ail-fuddsoddi mewn meysydd parcio neu swyddogaethau sy'n gysylltiedig â diogelwch ar y ffyrdd yn Sir Ddinbych. Cadarnhawyd bod cyfathrebu wedi digwydd â Phrifffyrdd i werthuso cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer pob maes parcio yn Sir Ddinbych.
- Dywedodd swyddogion nad oeddent wedi cael gwybod am unrhyw faterion diogelwch mewn meysydd parcio yn Llangollen. Roedd diogelwch yn ystyriaeth bwysig i feysydd parcio. Byddai'r gwaith o fonitro diogelwch meysydd parcio yn parhau.
- Cafwyd cadarnhad mai yn 2016 y codwyd taliadau parcio ceir yn y Sir ddiwethaf. Er nad oedd unrhyw gynlluniau penodol ar hyn o bryd i gynyddu taliadau parcio, diwygiwyd ffioedd a thaliadau yn flynyddol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a'r atebion a roddwyd i bryderon yr aelodau.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD gan y Pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau uchod

- i). argymhell y dyliid amrywio'r cynllun peilot yn Llangollen lle byddai tariffau meysydd parcio yn cael eu hamrywio yn y gwahanol feysydd parcio yn y dref ar y sail, lle y bo'n bosibl, na fyddai unrhyw golled net yn incwm meysydd parcio o'r holl feysydd parcio yng nghanol tref Llangollen;
- ii). bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, tua 15 mis ar ôl i'r Cynllun gael ei weithredu, ar ei effeithiolrwydd ac unrhyw wersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot ar gyfer cynlluniau tebyg yn y dyfodol; a
- iii). chadarnhau ei fod wedi darllen yr Asesiad o Effaith ar Les, ei ddeall a'i ystyried fel rhan o'i ystyriaethau.

Ar y pwynt hwn (12.05 p.m.) cymerodd yr aelodau egwyl o 20 munud am Iuniaeth.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.25 p.m.

7 CREDYD CYNHWYSOL

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Graham Kendall, o Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych ar gyfer y drafodaeth ar Gredyd Cynhwysol.

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd, yr adroddiad Credyd Cynhwysol (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Pwyllgor wedi gofyn yn wreiddiol am yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) er mwyn adrodd ar symud y swp terfynol o dderbynwyr i Gredyd Cynhwysol. Roedd pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y broses hon ac o ganlyniad roedd manylion wedi'u cynnwys yn y papurau ar gyfer sylwadau'r aelodau. Cyfeiriwyd at y ffigurau data yn adlewyrchu'r pandemig presennol. Roedd nifer yr hawlwr wedi cynyddu oherwydd ffactorau allan o reolaeth unigolion.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo gyflwyniad byr ar sut yr oedd Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi preswylwyr mewn perthynas â CC a chymorth cysylltiedig. Dywedwyd bod Credyd Cynhwysol wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn oherwydd y pandemig yn bennaf. Roedd y cynnydd yn y niferoedd yn cynnig sicrwydd bod trigolion Sir Ddinbych wedi cael cymorth ariannol. Oherwydd y cynnydd yn nifer y ceisiadau am Gredyd Cynhwysol gwelwyd effaith ar gyllid Cyngor Sir Ddinbych (CSDd). Gweinyddodd yr Adran Gwaith a Phensiynaau y Credyd Cynhwysol, gweinyddwyd budd-daliadau eraill fel Budd-dal Tai gan CSDd. Esboniwyd i'r aelodau fod y grant gweinyddu Budd-dal Tai wedi lleihau yn unol â'r symudiad i Gredyd Cynhwysol. Nodwyd er bod y cyllid wedi lleihau roedd y llwyth gwaith wedi aros yr un fath. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi'i gynnig i breswylwyr cymwys, a bod y nifer a oedd wedi manteisio arno wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf. Roedd hyn wedi deillio o bandemig Covid-19; pwysleisiwyd y byddai'r adferiad yn araf. Hysbyswyd yr Aelodau bod grant arian parod i gynorthwyo'r effaith ariannol oherwydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi'i sicrhau ar gyfer 2020/21, ond nid oedd yn glir eto a fyddai unrhyw gymorth ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Roedd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo am ddiolch i swyddogion a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am yr holl waith caled a oedd wedi'i wneud i'r newid llyfn i Gredyd Cynhwysol, yn enwedig yn ystod y misoedd anodd.

Aeth y Rheolwr Cymorth Busnes i'r afael â nifer o bryderon yr oedd yr aelodau wedi'u codi cyn y cyfarfod. Esboniwyd i'r aelodau yr anhawster o ran darparu ffigurau cywir yngylch nifer yr unigolion a oedd yn dal i gael budd-daliadau etifeddol. Roedd yn rhaid chwilio am y data ar gyfer y cwsmeriaid hynny o ystod eang o wahanol fudd-daliadau nad oedd gan CSDd fynediad at y wybodaeth. Cadarnhawyd bod nifer yr hawlwr Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi cynyddu 2.8%, a bod cynnydd o 10.95% wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr am brydau ysgol am ddim rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2020. Darparodd y Swyddog Cymorth Busnes gyd-destun i'r aelodau ar gyfer y data yn atodiad 1 ac atodiad 2. Pwysleisiwyd bod swyddogion yn monitro'r ystadegau'n rheolaidd bob mis er mwyn

sicrhau bod ymchwiliad ac ymyrraeth bellach yn digwydd cyn gynted ag y bo angen. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o fudd-daliadau a mesurau ariannol brys ar waith ar hyn o bryd y gallai preswylwyr fod yn gymwys i'w hawlio, a bod gan bob un ohonynt ofynion mein i prawf gwahanol.

Roedd Graham Kendall - Roedd Rheolwr Datblygu Busnes Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn adleisio meddyliau a sylwadau'r Aelod Arweiniol a swyddogion, gan ganmol bod y dull o ymdrin â Chredyd Cynhwysol y dull cywir. Roedd wedi rhoi'r wybodaeth a'r partneriaethau i unigolion allu cysylltu â nhw am gymorth. Tynnwyd sylw at y ffaith bod 1235 o hawliadau newydd wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod clo ar gyfer Credyd Cynhwysol. Roedd y berthynas waith agos barhaus â CSDd wedi bod yn amhrisiadwy i swyddogion Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych a hawlwyr. Diolchodd cynrychiolydd Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych i'r aelodau am y gwahoddiad i'r cyfarfod a chynigiodd ei ddiolch i swyddogion am y gwaith partneriaeth parhaus.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r ffigyrâu cyfan ynglŷn ag unigolion sy'n dal ar yr hen fudd-daliadau'n anodd eu cael. Eglurwyd bod nifer o wahanol adrannau'n darparu'r data. Roedd y ffigyrâu'n gymhleth iawn.
- Cadarnhawyd bod cynnydd o tua 600 o hawliadau wedi bod gan unigolion oedd yn methu â gweithio yn ystod y pandemig Covid-19. Dywedodd y Swyddogion y gallai'r cynnydd yn nifer yr hawliadau fod am gymorth lefel isel ac nid y lwfans Credyd Cynhwysol llawn. Nodwyd bod nifer o unigolion weithiau yn cyflwyno hawliadau Credyd Cynhwysol ac weithiau ddim gan fod gwaith wedi bod yn dameidiog yn ystod y cyfnodau clo.
- Roedd cynnydd mewn achosion wedi'i nodi gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. Roedd holl weithlu Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi newid i weithio ar-lein ac o bell oherwydd y pandemig. Roeddent wedi mabwysiadu nifer o ddulliau o ymgysylltu ag unigolion. Roedd allgymorth cymunedol gan nifer o sefydliadau wedi cefnogi unigolion i allu derbyn cymorth os oeddent ei angen.
- Roedd gwarchodaeth i brydau ysgol a ddim wrth bontio wedi cael ei chyflwyno cyn y pandemig gan LIC. Roedd mewn grym i warchod y nifer bach iawn o blant a fyddai'n dal yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan yr hen fudd-daliadau ond nid o dan Gredyd Cynhwysol. Ers mis Ebrill 2019, byddai unigolion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu wedi bod yn derbyn prydau ysgol am ddim yn y gorffennol yn parhau i dderbyn y prydau ysgol am ddim pe bai sefyllfa ariannol y teulu'n newid. Dan ddeddfwriaeth Cymru, byddai'r warchodaeth bontio yn parhau i fod mewn grym tan fis Rhagfyr 2024.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r holl swyddogion am yr ymateb manwl i bryderon yr Aelodau. Diolchwyd yn arbennig am yr holl waith roedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi'i wneud hyd yma. Felly

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau'n derbyn y cynnwys a'r wybodaeth o fewn yr adroddiad ar Gredyd Cynhwysol.

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwytiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- Cytunodd yr Aelodau i ohirio'r eitem ar 'Rôl Sir Ddinbych yn y Ddarpariaeth Cludiant Cyhoeddus a Theithio Llesol' tan fis Hydref 2021.
- Cadarnhawyd yr eitemau a restrwyd ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth 2021.
- Cytunodd pob aelod i ohirio'r adroddiad ar 'Y Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio' tan ddechrau 2022.
- gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw ffurflennoedd cynnig ynghylch pynciau i graffu arnynt.
- Roedd cylch gwaith drafft wedi'i gynnwys yn Atodiad 5 i'r grŵp tasg a gorffen i edrych ar reoli llifogydd a gweithio gyda thirfeddianwyr preifat i lliniaru'r perygl o lifogydd difrifol. Byddai'r cylch gorchwyl yn cael ei gyflwyno i bob Grŵp Ardal Aelodau i ofyn am enwebiad gan Grŵp i wasanaethu ar y grŵp. Cadarnhawyd y byddai'n cymryd peth amser i'w sefydlu.
- Gofynnodd y Cyngahorydd Merfyn Parry am i'r adroddiad ar effaith yr ysgol yn Rhewl ar gymunedau Rhewl a Llanynys gynnwys 'Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned'. Cytunwyd y byddai'r Cyngahorydd Parry a'r Cydlynnydd Craffu yn cysylltu â swyddogion i gael yr wybodaeth y cytunwyd arni. Cynigiodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus ei gymorth gyda llunio'r adroddiad hwn.

PENDERFYNWYD

- i). *yn amodol ar y gwelliannau a'r ychwanegiadau i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddrafft a gynigiwyd yn ystod y cyfarfod, cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor, a*
- ii). *chymheradwyo'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogion Glannau Afonydd.*

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.20 p.m.



Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	11 Mawrth 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Julian Thompson Hill a Mark Young / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Sipsiwn a Theithwyr – Goblygiadau o Ran Adnoddau a Gweithdrefnau Drafft Gwersylloedd Answyddogol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi'r cefndir i ddull Cyngor Sir Ddinbych o ddelio â gwersylloedd answyddogol Sipsiwn a Theithwyr, yn adolygu'r prosesau sydd ar waith mewn cynhorau eraill ac yn darparu opsiynau ac yn gwneud nifer o argymhellion ynglŷn â sut y dylem symud ymlaen â strwythur a phrosesau cadarn i wella'r ymateb.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddarriad i'r Pwyllgor Craffu am y penderfyniadau a'r datblygiadau diweddar a oedd wedi'u bwriadu i wella sut mae'r Cyngor yn ymateb i wersylloedd answyddogol gan Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet wedi cefnogi'r cynigion.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Craffu'n ystyried ac yn trafod y datblygiadau a'r penderfyniadau diweddar ynghlwm a'r modd y mae'r Cyngor yn ymateb i wersylloedd answyddogol gan Sipsiwn a Theithwyr.

4. Manylion yr Adroddiad

GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Gwaith Rhanbarthol

Yn amlwg, mae'r mater hwn yn effeithio ar Awdurdodau Lleol eraill a sefydliadau partner ar draws y rhanbarth yn ogystal â nifer o wasanaethau o fewn y Cyngor. Gan hynny, cytunwyd ar Brotocol ar y Cyd i Ogledd Cymru ar Reoli Gwersylloedd Diawdurdod yn 2015. Mae copi o'r protocol wedi'i gynnwys yn Atodiad E. Trefnwyd a chynhaliwyd y cyfarfodydd gan Dîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, mae'r rhain bellach wedi dod i ben oherwydd presenoldeb anghyson, diffyg gallu i flaenoriaethu'r gwaith oedd ei angen i gefnogi'r cyfarfodydd a newid i'r personél yn Llywodraeth Cymru.

4.2 Adroddiad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

O fewn Cyngor Sir Ddinbych (CSDd), cafodd papur ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Medi 2019, a oedd yn crynhoi'r trefniadau presennol (gweler Atodiad F) ac yn gwneud yr argymhellion canlynol:

1. Adolygu'r broses asesu lles
2. Gwahanu'r broses asesu lles oddi wrth y broses cyflwyno hysbysiad
3. Lle bo hynny'n briodol, comisiynu bei'l-aid i gyflwyno hysbysiad ac ymdrin â'r holl ddogfennaeth ddilynol ac ymddangosiadau mewn llys, yn hytrach na defnyddio swyddogion CSDd
4. Sefydlu cyllideb gorfforaethol i ymdrin â chostau sy'n gysylltiedig â thresbasu

Ni wnaed unrhyw benderfyniadau terfynol ac fe amharwyd ar gynnydd yn amlwg gan y pandemig yn gynnar yn 2020. Fodd bynnag, yn rhan o'r adolygiad hwn, mae cod wedi'i sefydlu dan Gronfeydd wrth Gefn Corfforaethol i wasanaethau allu codio gwariant uniongyrchol yn ymwneud â gwersylloedd. Mae Lisa Atherton, Uwch Ymarferydd, Gofal Cymdeithasol i Blant, hefyd wedi gwneud llawer o waith dros y 3 mis diwethaf yn datblygu'r broses asesu lles. Mae hyn wedi darparu gwybodaeth ar gyfer y mapiau proses o fewn yr adroddiad hwn.

4.3 Fframwaith Cyfreithiol

Mae gan y Cyngor bŵer (nid dyletswydd) dan Adran 77 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i gyflwyno cyfarwyddyd i rai sy'n rhan o wersyll diawdurdod, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt adael a symud eu cerbydau oddi yno. O roi'r cyfarwyddyd, mae wedyn yn drosedd i unrhyw un y mae'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddo fethu â gadael, a gellir cosbi hyn â dirwy. Pan mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfarwyddyd dan Adran 77 a bod pobl a cherbydau'n parhau i fod ar y tir yn groes i'r cyfarwyddyd, gall y Cyngor wneud cais i'r Llys Ynadon am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol symud unrhyw gerbyd neu eiddo arall sydd ar y tir oddi yno, ac unrhyw unigolyn sy'n byw yn ddo. Mae'n drosedd atal unrhyw un sy'n gweithredu i arfer y pŵer sydd yn y gorchymyn. Pwerau'r awdurdod lleol, ac nid ei ddyletswyddau, yw cyflwyno cyfarwyddyd neu wneud cais i Lys am orchymyn o dan y darpariaethau hyn. Nid oes rhaid i'r Cyngor weithredu fel hyn ond gall benderfynu gwneud hynny. Wrth wneud y penderfyniad, dylai'r Cyngor gadw'r ystyriaethau cyfraith gyhoeddus arferol mewn cof, h.y. ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol, dyletswyddau cydraddoldeb ac ystyriaethau hawliau dynol.

Fodd bynnag, mewn ymateb i'r Pandemig Covid-19, mae Canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2020, a gafodd eu diweddar uddiethaf ym mis Medi, o'r enw 'Canllawiau i'r rhai sy'n cefnogi cymunedau Sipsiwn a Theithwyr: COVID-19'. Mae'n gywir dweud nad cyfarwyddyd yw hwn, ond canllawiau. Mae'n wir nad yw'r canllawiau'n ganllawiau statudol. Mewn geiriau eraill, nid oes unrhyw ran o Ddeddf 1994 yn dweud ei bod yn rhaid i'r Cyngor roi sylw i'r canllawiau mewn perthynas â'r pwerau hyn. Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n ystyriaeth berthnasol a dylid eu defnyddio.

Mae'r canllawiau'n dweud na ddylai awdurdodau lleol droi gwersylloedd diawdurdod allan, eu hadleoli na'u gorfodi i wasgaru oni bai fod risgiau uniongyrchol a sylweddol i ddiogelwch ac iechyd y cyhoedd trwy barhau i aros yno.

Mae'r canllawiau'n mynd ymlaen i ddweud, lle credir bod angen troi pobl allan, ***y dylai'r Cyngor ddod o hyd i leoliad arall addas lle bo modd.***

4.4 Canllawiau Llywodraeth Cymru

Mae [Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod 2013](#) gan Lywodraeth Cymru'n dweud y canlynol am ffyrdd o ddatrys gwersylla diawdurdod:

I bob pwrpas, os oes gwersyll diawdurdod yn codi ac nad oes unrhyw safleoedd awdurdodedig eraill yn yr ardal, mae gan awdurdodau lleol dri llwybr clir yn ymwneud â sut y gallant ddatrys mater y gwersyll. Dylid ystyried pob opsiwn yn ofalus:

- **Llwybr 1** – Ceisio cymryd meddiant o'r safle a feddiannir (camau troi allan).
- **Llwybr 2** – 'Goddef' meddianwyr Sipsiwn neu Deithiol, hyd yn oed am gyfnod byr, hyd nes y gellir dod o hyd i safle amgen neu nes mae'r meddianwyr yn symud ymlaen o'u gwirfodd.
- **Llwybr 3** – Dod o hyd i safle amgen, hyd yn oed os yw'n un dros dro'n unig, a chynnig cyfle i'r meddianwyr Sipsiwn neu Deithiol symud iddo.

Argymhellir bod awdurdodau lleol yn mynd ar ymwelliad cychwynnol i'r gwersyll cyn penderfynu pa opsiwn sydd fwyaf priodol. Bydd hyn yn galluogi casglu gwybodaeth allweddol ynglŷn â pham mae'r gwersyll wedi'i sefydlu, p'un a oes unrhyw bryderon brys am les ac am ba mor hir mae'r meddianwyr yn bwriadu aros.

Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cael **Un Pwynt Cyswllt** ac yn dweud:

Swyddogaeth yr Un Pwynt Cyswllt

Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu ei protocol ei hun ar gyfer ymateb i wersylla diawdurdod a fydd yn pennu'r weithdrefn a pha bersonél fydd eu hangen. Fodd bynnag, argymhellir y dylid clustnodi un swyddog arweiniol i ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:

1. Cydgysylltu â meddianwyr ac eraill sy'n cael eu heffeithio.
2. Cynnal neu gydgysylltu'r asesiadau angenrheidiol ac ymwneud â swyddogion perthnasol i sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion.
3. Cyfleu'r dystiolaeth a darparu argymhellion i uwch swyddogion a fydd yn penderfynu yn y pen draw pa gamau i'w cymryd.
4. Sicrhau bod pob rhan-ddeiliad yn cael gwybod am y camau arfaethedig a bod cyn lleied â phosibl o aflonyddu ar bawb.

Y DYFODOL

4.5 Derbyniodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr adroddiad ar 7 Ionawr i gytuno ar y ffordd orau ymlaen i wella ymateb y Cyngor yn y maes hwn. Ar ôl cael cefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cafodd adroddiad arall ei gyflwyno i Gyfarfod Brifffio'r Cabinet ar 20 Ionawr, a oedd hefyd yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig sydd i'w gweld isod. Roedd gwaith wedi'i wneud i ddatblygu proses eglur ar gyfer gwersylloedd diawdurdod. Mae angen mwy o waith er mwyn sicrhau bod y broses yn addas at ei diben a bod gwaith ymgynghori wedi'i wneud â'r bobl gywir a'u bod yn rhan o'r broses wrth symud ymlaen.

Mae'r egwyddorion bras ym map y broses wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Pwyntiau allweddol y broses yw:

- Proses glir wedi'i chytuno i ymgysylltu ar lefel strategol a gweithredol
- Proses glir wedi'i chytuno sy'n gwahaniaethu rhwng gwersyolloedd ar dir CSDd a rhai ar dir preifat
- Sefydlu Grŵp Strategol i ymgymryd â'r ôl oruchwyliol a gwneud penderfyniadau ynglŷn â gofynion cyfathrebu a chyhoeddi unrhyw hysbysiadau Adran 77
- Sefydlu Tîm Gweithredol i gydlynu'r agweddau gweithredol
- Creu a chynnal cyfeiriadau e-bost a rhestrau cyswllt penodol i grwpiau ar gyfer y Grŵp Strategol a'r Tîm Gweithredol
- Tîm Ymyrraeth o fewn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i fod â'r han allweddol mewn Asesiadau Lles (gweler Atodiad A)
- Gweithredu Argymhelliaid 3 o gyflwyniad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Medi 2019 a sefydlu cytundeb gyda beiliad allanol i gyflwyno hysbysiad ac ymdrin â'r holl ddogfennaeth ddilynol ac ymddangosiadau yn y Llys, yn hytrach na defnyddio swyddogion CSDd.

Cyflwynwyd dau ddewis i weithredu'r broses hon:

DEWIS A

Ceisio gweithredu'r prosesau newydd a'r ffurflen Asesu Lles gyda'r trefniadau staffio cyfredol. Er y bydd hyn yn helpu o ran eglurder y broses a'r broses o wneud penderfyniadau, byddai yn amlwg yn golygu na fyddai CSDd yn defnyddio'r arfer orau. Yn benodol, ni fyddai'r ôl Un Pwynt Cyswllt wedi'i darparu. Mae'n amlwg na all y'r ôl fel mae wedi'i thrafod uchod gael ei gwneud o fewn adnoddau cyfredol.

DEWIS B

Creu'r ôl newydd i Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr a fydd yn gweithredu fel Un Pwynt Cyswllt. Mae enghraift o Swydd-ddisgrifiad wedi'i chynnwys yn Atodiad D. Prif swyddogaethau'r swydd fyddai:

- Darparu un pwynt cyswllt ar ran y Cyngor mewn perthynas â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, dros faes amrywiol sy'n cynnwys cymorth unigol, hyfforddiant ymwybyddiaeth, ymgysylltu â'r gymuned a chynghori ar ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

- Darparu cyngor technegol i rai sy'n penderfynu yn y Cyngor ar ddeddfwriaeth allweddol a chanllawiau sy'n ymwneud â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ac sy'n effeithio arnynt. Gall hyn hefyd ymestyn i bartneriaid a budd-ddeiliaid eraill.
- Cydlynu cyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â gwersyloedd diawdurdod sy'n cynnwys ymweliadau safle, asesiadau lles, darparu gwasanaethau, ymdrin â thensiynau yn y gymuned gan drigolion lleol a pharatoi tystiolaeth at ddibenion cyfreithiol.
- Sicrhau bod y prosesau a'r rhestrau cyswllt yn cael eu cynnal i sicrhau eu bod yn addas at eu diben ac yn gynaliadwy.
- Casglu gwybodaeth ynghyd sy'n ymwneud â gwersyloedd diawdurdod a llenwi Matrics Penderfyniad a fydd yn cynnwys argymhelliaid i uwch reolwyr a'r Grŵp Strategol ynglŷn â chychwyn ar faterion cyfreithiol (enghraift yn Atodiad B).
- Darparu cyngor a chymorth i berchnogion tir preifat a budd-ddeiliaid eraill mewn perthynas â gwersyloedd ar dir preifat.
- Os gwelir bod angen safleoedd parhaol a/neu safleoedd pontio ar ôl cwblhau'r Asesiad Sipsiwn a Theithwyr (proses ar wahân), y gobaith yw y byddai'r swydd hefyd yn rhan ganolog o ddod o hyd i safleoedd parhaol a safleoedd pontio addas a'u datblygu, a chyflwyno trefniadau rheoli priodol er mwyn i'r gymuned Deithiol allu eu defnyddio'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a gosod rheolau safle a sicrhau bod unrhyw safleoedd yn cael eu rheoli'n effeithiol.
- Cwblhau holl ffurflennoedd swyddogol y Llywodraeth ac ymateb i ymgynghoriadau LIC.
- Trafod gydag Awdurdodau Lleol eraill a'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn ceisio ailedrych ar y dull o weithio mewn partneriaeth ar y cyd.

4.6 Penderfyniad yr Uwch Dîm Rheoli wedi'i gefnogi yng Nghyfarfod Briffio'r Cabinet

Fe wnaeth yr Uwch Dîm Rheoli'r penderfyniadau canlynol, a gafodd wedyn eu cefnogi yng Nghyfarfod Briffio'r Cabinet:

- Cytunwyd mai Dewis B oedd y dewis a ffefrir ac y byddai swydd newydd yn cael ei chreu ar gyfer Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr.
- Penderfynwyd hefyd mai'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer y swydd wrth symud ymlaen oedd o fewn Tai Cymunedol.

- Er y byddai'r arweinyddiaeth ar yr Uwch Dîm Rheoli am y maes hwn yn trosglwyddo i Liz Grieve maes o law, byddai Steve Gadd yn parhau i arwain dros y misoedd nesaf tra oedd y swydd yn cael ei chynllunio a'i llenwi.
- Cymeradwywyd yr opsiwn am y beili allanol.
- Cymeradwywyd yr egwyddorion bras yn y broses ddrafft. Er hynny, cydnabyddid bod angen mwy o waith, ymgynghori ac ymgysylltu.
- Cytunwyd hefyd, oherwydd proffil uchel y maes hwn o waith, y byddem angen ymgysylltu ag aelodau'n ehangach. Yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu yw rhan gyntaf y gwaith ymgysylltu ehangach hwnnw.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Bydd proses gadarn i ymdrin â gwersylloedd answyddogol ynghyd â'r staff ychwanegol arfaethedig i ymgysylltu â chymunedau'n cyfrannu at flaenoriaethau mewn meysydd fel tai trwy gyfrannu at fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd yn llwyddiannus, gwella gwytnwch cymunedau a chynnal amgylchedd deniadol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Bydd angen i'r swydd fynd drwy'r broses Gwerthuso Swyddi, ond mae'n debygol o gostio rhwng £40,000 a £50,000. Byddai'n cael ei argymhell bod y swydd yn cael ei hariannu'n llawn gyda dyraniad cyllideb sylfaenol o'r Gronfa wrth Gefn Gorfforaethol. Efallai y bydd angen cyllideb ychwanegol i ganiatáu i'r Swyddog allu cyflawni ei ddyletswyddau, sy'n gallu cael eu hasesu'n ddiweddarach (e.e. defnydd o gerbyd Cyngor heb ei farcio).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Mae'r cynigion ynglŷn â phrosesau ac adnoddau yn weithredol eu natur ac wedi'u dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth, felly nid oedd cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Les yn cael ei ystyried yn angenrheidiol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Fe wnaed llawer iawn o waith ymgynghori yn rhan o ddatblygu'r cynigion hyn, ar draws sawl gwasanaeth o fewn y Cyngor. Mae gwaith ymgynghori hefyd wedi'i

wneud yn rhanbarthol i sicrhau ein bod yn dysgu o'r arfer orau. Yn dilyn datblygu'r cynigion, mae adroddiadau wedi mynd ger bron yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac i Gyfarfod Briffio'r Cabinet. Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn rhan o'r cam nesaf o ymgynghori â'r aelodau'n ehangach.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid


- 9.1. Mae'r costau ac effeithiau ariannu wedi'u nodi yn Adran 6.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?


- 10.1. Bwriad gweithredu yn y maes hwn yw lleihau'r risg o amhariadau ar gymunedau preswyl a busnes gan hefyd fynd i'r afael â risgiau i les Teithwyr.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1 Mae'r cynigion sydd wedi'u disgrifio yn yr adroddiad hwn yn rhai gweithredol eu natur ac wedi'u dirprwo i'r Pennaeth Gwasanaeth. Mae crynodeb o'r fframwaith deddfwriaethol ehangach a chanllawiau LIC yn ymwneud â delio â gwrsylloedd diawdurdod wedi'i gynnwys yn adrannau 4.3 a 4.4.
- 11.2 Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.



Non DCC Land



Welfare Assessment

Encampment location	
Date and time of assessment:	
Names of assessors:	
1. Vehicles	
Registration, Colour, and Description (e.g. make and model) of Caravan/Campervan	1.
Registration, Colour, Model and Description of additional vehicles (e.g. car, van)	
2. Occupiers:	
Male (Adult):	
Female (Adult):	
No of child occupants (under 16) and DOB/ages:	
3. Animals	
No and type of animals?	
Are they tethered?	
Any concerns?	

4. Health/Welfare Issues:	
(1) Name/DOB/ Issue: Summary of discussion (e.g. referred to local GP):	
Does this issue prevent the individual from moving on?	
If yes or possibly what action will be/has been taken?	
(2) Name/DOB/ Issue: Summary of discussion (e.g. referred to local GP):	
Does this issue prevent the individual from moving on?	
If yes or possibly what action will be/has been taken?	
5. Pregnancy:	
Are any women pregnant?	
If yes provide name, due date, concerns, hospital registered at, etc., treatment receiving and if in good health.	
If appropriate what action will be/has been taken? (e.g. Health Visitor asked to visit, refer to GP.)	

6. Education:	
Children attending local schools – name, DOB & school:	
No of children that have examinations at a local school in the next four weeks include details?	
Any education issues and action taken (e.g. arrange for education service to visit)	
7. Other details:	
a) Where have you travelled from?	
b) b. Reason for stay/encampment (e.g. travelling through, work, etc):	
c) How long do you intend to stay?	
d) Are you expecting others to join you?	
e) Group Origin: (e.g. Irish Traveller, Roma)	
f) Access to toilet facilities. Details:	
g) Did occupiers refuse to provide information?	
h) Are occupiers looking for permanent residency or a transit site in Flintshire and details of	

Appendix B

permanent/accommodation residency elsewhere?	
Signature of occupier	
Signature of Assessor	

8. Additional Notes:

(Large empty box for additional notes)

Follow up assessments

Date:	
Assessors:	
Details of any changes since previous assessment:	
Signature of occupier	
Signature of Assessor	
Additional Notes:	

Date:	
Assessors:	
Details of any changes since previous assessment:	
Signature of occupier	
Signature of Assessor	
Additional Notes:	

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

UNAUTHORISED ENCAMPMENT DECISION MATRIX

SITE: DATE: 02/12/20

POLICE INCIDENT NO: **LEAD OFFICER:**

The decision matrix is to help make clear, consistent and appropriate decisions on unauthorised encampments

- All decisions need to be proportionate and withstand challenge.
- There needs to be a balance struck between all parties, balancing all rights and responsibilities

The following matters should be taken into account in deciding what action, if any, should be taken

(the boxes shaded show the criteria that would allow the encampment/particular family to remain)

FACTORS TO BE CONSIDERED	ASSESSMENT	NAME OF OFFICER ASSESSING
Site Summary of the families 31 <ul style="list-style-type: none"> • Number of families • Number of adults (<65) • Number adults(>65) • Number children (<16) 		
Health Consider the consequences of eviction on the families' health <ul style="list-style-type: none"> • have health issues been raised during the welfare checks • has this been checked with health i.e. hospital appointments? 		

<p>Consider the consequences of eviction on the education of the children of families on the site (Welfare checks)</p>		
<p>Consider the consequences allowing the Gypsy/Travellers to remain</p> <ul style="list-style-type: none"> • Impact on the land & surrounding land? • Impact on planning policy? • Impact on the local residents? • Impact on the businesses? <p>Costs? Environmental damage?</p> <p>Udalen 32</p>		
<p>Consider previous decisions on the land.</p> <p>When it was last encamped upon?</p> <p>Were there any problems/issues?</p> <p>Number/type of complaints?</p>		
<p>Consider the advantages to the authority of 'accepting/tolerating' the encampment</p>		
<p>Consider any alternative sites the Council might be able to offer (both</p>		

permanent and temporary)		
Consult with (internal partnerships) <ul style="list-style-type: none"> • Adult Social Care • Children's Services • Housing Options 		
Consult local members		
Consult relevant <ul style="list-style-type: none"> • Director • Head of Service • Portfolio holder 		
Consult with the local Police Inspector 33 (where appropriate e.g. high levels of criminality ASB)		

DECISION

Officer who takes the decision authorising action to indicate the action being authorised and to detail her/his judgement on proportionality.

Officer to sign and date the checklist

ENCAMPMENT LEAD OFFICER'S RECOMMENDATION

DATE

SIGNATURE

SENIOR OFFICER'S RECOMMENDATION

DATE

SIGNATURE

Review date

Review date

NOTES

Record the names of those officers who have given their opinions against each of the items in the checklist
The decision to be reviewed on a weekly basis and signed off.

Appendix D

JOB DESCRIPTION

Job Title	Gypsy Traveller Liaison Officer
Directorate	Housing and Assets
Reports to	Service Manager - Housing Programmes

1.0 Job Purpose

Reporting directly to the Service Manager, Housing Programmes this specialist post will provide a single point of contact on behalf of the council in relation to all matters involving the Gypsy Traveller community which includes a diverse area covering individual support, site management, transit site provision, awareness training, community engagement and advising on related legislation and guidance.

Co-ordinate the council's responsibilities in relation to unauthorised encampments which involves site visits, welfare assessments, provision of services, dealing with any community tensions from local residents and evidence preparation for legal purposes. Provide advice and assistance to private land owners and other stakeholders in relation to encampments on private land.

Ensure the council meets its legal obligations in relation to the provision of the permanent council Gypsy Traveller site and transit sites and co-ordinates arrangements for the placement of Syrian refugees within Flintshire.

2.0 Principle Accountabilities

1. To act as the single point of contact for the public, Members, Police, business owners, partner agencies, staff, etc. in respect of all council matters relating to the Gypsy Traveller community.
2. In a 'supporting people' role provide an advocacy and supporting role to Gypsy Traveller individuals and communities. This involves support, advice and representation in relation to accessing services to which they are entitled including benefits, education, DWP claims, housing, health and welfare matters, etc.
3. Facilitate and develop appropriate consultation between the council and the Gypsy Traveller community in the County, ensuring that there is effective liaison between the community and the various agencies working in the county.
4. Provide technical advice to Council decision makers on key legislation and guidance relating to and impacting the Gypsy Traveller community. This can also extend to partners and other stakeholders.
5. Co-ordinate the Council action required when an unauthorised Traveller encampment moves on to Flintshire County Council land

and apply the appropriate guidance for dealing with such encampments.

6. Take an active involvement in the identification and development of suitable transit sites and introduce appropriate management arrangements for their effective use by the Travelling community. This will involve developing and applying site rules and ensuring the site(s) are managed effectively.
7. To represent the Council and Gypsy Traveller Liaison forums and contribute to any relative Welsh Government consultations.
8. To conduct the January and July official caravan count and submit official returns to Welsh Government.
9. To ensure that the Council applies the legislative requirements for the provision of the Council owned site in terms of the Mobile Homes (Wales) Act 2013 and relevant Health and Safety.
10. To ensure that the Council's Gypsy Traveller site is managed effectively ensuring residents are issued with license agreements and understand their rights and responsibilities.
11. Ensure the Council owned site is maintained to a high standard and arrange repairs as required.
12. Take a lead role on behalf of the council to raise awareness of the culture of the Gypsy Traveller community.
13. Work with the Housing Solutions team on matters relating to the housing of Syrian refugees.
14. Any other duties as may be reasonably required within the Housing Programmes Service that relate to this area of work.

3.0 Job Context

Under the direction of the Service Manager - Housing Programmes to manage Gypsy and Traveller residential sites and be the main liaison for matters relating to the Gypsy and Traveller community.

4.0 Contacts

Internal	Service Manager Housing Programmes, Senior Council officers, Elected Members
External	Traveller and Gypsy Communities living on Council owned and private sites Travellers and Gypsies on Unauthorised Encampments Site Managers, General Public, Community councils, North Wales Police, Fire and Rescue Services,

5.0 Organisation

The post is located in the Housing Programmes team which is part of the Housing and Assets Portfolio.

6.0 Skills and Experience

Knowledge and experience of the housing sector, ideally with experience of managing Gypsy and Travellers services and sites;

Experience in implementing housing management practices such as allocation of accommodation/pitches, void management, tenancy management, customer involvement, neighbourhood management and anti-social behaviour;

A recognised qualification to Level 4 in a relevant discipline such as Housing and/or knowledge of housing law, good practice and current issues in relation to tenancy/site management and rent accounting and/or relevant experience in the responsibilities of the post.

Experience of working with the Gypsy Traveller community.

PERSON SPECIFICATION

JobTitle	Gypsy Traveller Liaison Officer
Directorate	Housing and Assets
Essential	
Education	A recognised qualification to Level 4 in a relevant discipline such as Housing and/or knowledge of housing law, good practice and current issues in relation to tenancy/site management and rent accounting and/or relevant experience to meet the requirements of the post.
Experience	
Experience of working with the Gypsy Traveller community; Experience of positive stakeholder engagement; Experience of partnership working and engaging with the Gypsy Traveller Community; Experience of dealing with the public in a front line role.	
Skills	
